*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 13(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2020 Rhif (Cy. XX)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007") sy'n cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983") sy'n cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol a Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("Deddf 2000") sy'n cynnwys darpariaethau mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol.

Gwnaed Gorchymyn 2007 a gorchmynion diwygio dilynol gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond trosglwyddwyd y pwerau galluogi i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Cymru 2017.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2007.

Mae Gorchymyn 2007 yn nodi gofynion penodol mewn perthynas â threuliau etholiad fel y diffinnir "election expenses" yn erthygl 63 o'r Gorchymyn hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiad ar y swm a ganiateir o'r treuliau hynny, fel y nodir yn erthygl 47 o'r Gorchymyn hwnnw.

Mae Rhan 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2007 yn nodi rhestr o faterion sydd wedi eu heithrio ("*excluded*") rhag bod yn dreuliau etholiad o fewn yr ystyr a roddir i "election expenses" yn erthygl 63 o'r Gorchymyn hwnnw. Nid yw'r materion hynny yn ddarostyngedig i'r gofynion a ddisgrifir uchod, gan gynnwys y rhai sy'n cyfyngu ar y swm o dreuliau a ganiateir.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd anabl sydd i'w priodoli'n rhesymol i anabledd yr ymgeisydd. Rhaid i'r gwariant hwnnw ei hun fod yn wariant yr eir iddo yn rhesymol.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn hefyd yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd sydd i'w priodoli i gyfieithu unrhyw beth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg, neu sy'n deillio o ganlyniad i hynny.

Mae Rhan 3 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 4A i Ddeddf 1983.

Mae Deddf 1983 yn nodi gofynion penodol mewn perthynas â threuliau etholiad fel y diffinnir "election expenses" yn adran 90ZA o'r Ddeddf honno. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiad ar y swm a ganiateir o'r treuliau hynny, fel y nodir yn adran 76 o'r Ddeddf honno.

Mae Rhan 2 o Atodlen 4A i Ddeddf 1983 yn nodi rhestr o faterion sydd wedi eu heithrio rhag bod yn dreuliau etholiad o fewn yr ystyr a roddir i "election expenses" yn adran 90ZA o'r Ddeddf honno. Nid yw'r materion hynny yn ddarostyngedig i'r gofynion a nodir uchod, gan gynnwys y rhai sy'n cyfyngu ar y swm o dreuliau a ganiateir.

Mae erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd anabl sydd i'w priodoli'n rhesymol i anabledd yr ymgeisydd. Rhaid i'r gwariant hwnnw ei hun fod yn wariant yr eir iddo yn rhesymol.

Mae erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn hefyd yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd sydd i'w priodoli i gyfieithu unrhyw beth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg, neu sy'n deillio o ganlyniad i hynny.

Mae Rhan 4 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 fel y mae'n gymwys i ymgeiswyr plaid yn etholiadau'r Senedd ac mewn etholiadau llywodraeth leol.

Mae Deddf 2000 yn nodi gofynion penodol mewn perthynas â gwariant ymgyrchu fel y diffinnir "campaign expenditure" yn adran 72 o'r Ddeddf honno.

Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiad ar y swm a ganiateir o'r treuliau hynny, fel y nodir yn adran 79 o'r Ddeddf honno.

Mae Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 yn nodi rhestr o faterion sydd wedi eu heithrio rhag bod yn wariant ymgyrchu o fewn yr ystyr a roddir i "campaign expenditure" yn adran 72 o'r Ddeddf honno. Nid yw'r materion hynny yn ddarostyngedig i'r gofynion a nodir uchod, gan gynnwys y rhai sy'n cyfyngu ar y swm o wariant ymgyrchu a ganiateir.

Mae erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd anabl sydd i'w priodoli'n rhesymol i anabledd yr ymgeisydd. Rhaid i'r gwariant hwnnw ei hun fod yn wariant yr eir iddo yn rhesymol.

Mae erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn hefyd yn ychwanegu at y rhestr honno faterion o ran gwariant yr eir iddo gan neu ar ran ymgeisydd sydd i'w priodoli i gyfieithu unrhyw beth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg, neu sy'n deillio o ganlyniad i hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn gweithredu diwygiadau technegol arferol nad ydynt yn cael unrhyw effaith, neu nad ydynt yn cael unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat, y sector gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 13(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2020 Rhif (Cy. XX)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *19 Tachwedd 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 13(1) a 157(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**) a thrwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 15(1) o Ran 3 o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**2**) a pharagraff 4 o Ran 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**3**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**4**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol yn unol ag adran 7(1), (2)(e) a (2)(f) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

(**1**) 2006 p. 32. Amnewidiwyd adran 13 gan adran 5(1) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).

(**2**) 1983 p. 2. Mewnosodwyd Atodlen 4A gan adran 27(1) a (5) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22).

(**3**) 2000 p. 41.

(**4**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).

Gosodwyd drafft o’r Gorchymyn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe’i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 13(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, paragraff 15(2) o Ran 3 o Atodlen 4A(**1**) i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ac adran 156(4)(j) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**2**).

# RHAN 1

## Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Tachwedd 2020 ond—

(a) nid yw erthyglau 2 a 3 ond yn cael effaith at ddibenion etholiad i Senedd Cymru pan gynhelir y bleidlais ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021;

(b) nid yw erthyglau 4 a 5 ond yn cael effaith at ddibenion etholiad llywodraeth leol yng Nghymru pan gynhelir y bleidlais ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021;

(c) mae erthyglau 6 a 7 yn cael effaith at ddibenion etholiad i Senedd Cymru neu etholiad llywodraeth leol yng Nghymru pan gynhelir y bleidlais ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr “Gorchymyn 2007” yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007(**3**),

(b) ystyr “Deddf 1983” yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ac

(c) ystyr “Deddf 2000” yw Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

---

(**1**) Mae’r cyfeiriad at ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig ym mharagraff 15(2) o Ran 3 o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i’w ddarllen fel cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd paragraff 9(2)(b) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Ailenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).

(**2**) Mae’r cyfeiriad at ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig yn adran 156(4) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 i’w ddarllen fel cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd paragraff 9(2)(b) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Ailenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).

(**3**) O.S. 2007/236.

# RHAN 2

## Eithriadau cyffredinol newydd rhag y diffiniad o dreuliau etholiad: etholiadau Senedd Cymru

**Diwygio Gorchymyn 2007**

**2.** Mae Gorchymyn 2007 wedi ei ddiwygio yn unol ag erthygl 3.

**3.** Yn Rhan 2 o Atodlen 7 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (Eithriadau cyffredinol) ar ôl paragraff 13 mewnosoder y canlynol—

> "**13A.**—(1) Any matter that is reasonably attributable to the candidate's disability, to the extent that the expenses in respect of the matter are reasonably incurred.
>
> (2) In this paragraph "disability", has the same meaning as in section 6 of the Equality Act 2010(**1**).
>
> **13B.** Expenses incurred in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh."

# RHAN 3

## Eithriadau cyffredinol newydd rhag y diffiniad o dreuliau etholiad: etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru

**Diwygio Deddf 1983**

**4.** Mae Deddf 1983 wedi ei diwygio yn unol ag erthygl 5.

**5.** Yn Rhan 2 o Atodlen 4A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (treuliau etholiad: eithriadau cyffredinol)—

(a) ym mharagraff 7A hepgorer is-baragraff (3);

(b) ar ôl paragraff 8 mewnosoder y canlynol—

> "**8A.** In relation to a local government election in Wales, expenses incurred in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh."

(**1**) 2010 p. 15.

# Rhan 4

## Eithriadau cyffredinol newydd rhag y diffiniad o wariant ymgyrchu: etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru

**Diwygio Deddf 2000**

**6.** Mae Deddf 2000 wedi ei diwygio yn unol ag erthygl 7.

**7.** Yn Rhan 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (eithriadau)—

(a) ym mharagraff 2(1)(d) ar ddiwedd yr is-baragraff, hepgorer y gair "or";

(b) ym mharagraff 2(1)(e) ar ddiwedd yr is-baragraff, hepgorer y gair "him." a mewnosoder "him; or";

(c) ar ôl paragraff 2(1)(e) mewnosoder y canlynol—

"(f) any expenses incurred in respect of a Senedd Cymru election or a local government election in Wales:

(i) relating to any matter that is reasonably attributable to the candidate's disability, to the extent that the expenses in respect of the matter are reasonably incurred; and

(ii) in respect of, or in consequence of, the translation of anything from Welsh into English or from English into Welsh."

(d) ar ôl paragraff 2(2) mewnosoder y canlynol—

"(3) In relation to sub-paragraph 2(1)(f)(i) "disability", has the same meaning as in section 6 of the Equality Act 2010."

*Enw*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad